
Adolygiad o'r
Penderfyniad ar gyfer
2022-23: Adroddiad

Mawrth 2022

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y tâl a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol ac i alluogi'r rhai a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swyddi yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Aelodau'r Bwrdd

- Dr Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Syr David Hanson
- Mike Redhouse
- Y Fonesig Jane Roberts
- Hugh Widdis

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

- Llinos Madeley, Clerc
- Ruth Hatton, Dirprwy Glerc
- Joanna Adams, Ail Glac

Mae copïau o'r Penderfyniad hwn hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras, sain neu gopi caled gan:

Clerc Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Taliadau@Senedd.Cymru**

Adolygiad o'r
Penderfyniad ar gyfer
2022-23: Adroddiad

Mawrth 2022

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
1. Y broses adolygu	7
2. Crynodeb o'r penderfyniadau allweddol.....	9
3. Tâl Aelodau	11
4. Gwariant ar Lety Preswyl	12
5. Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu	15
6. Cymorth Staffio	23
7. Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol	30
8. Materion eraill	33
9. Rhaglen waith strategol y Bwrdd.....	35
Atodiad A: Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd	37
Atodiad B: Adroddiad ar waith ymchwil i gostau rhentu swyddfeydd (Saesneg yn unig)	39
Atodiad C: Cyflogau'r Aelodau ar gyfer 2022/23	82
Atodiad D: Adroddiad ar y farchnad gan Ymchwil y Senedd	83
Atodiad E: Graddfeydd cyflog staff yr Aelodau a staff y pleidiau gwleidyddol ar gyfer 2022/23	89

Rhagair y Cadeirydd

Un o egwyddorion arweiniol Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ('y Bwrdd') yw bod yn rhaid i'w benderfyniadau 'fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru'. Ynghyd ag egwyddorion allweddol eraill, mae hyn yn sail ar gyfer ein penderfyniadau ar gyflogau a lwfansau Aelodau o'r Senedd ('Aelodau').

Mae'r cyfnod presennol yn un eithriadol. Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar bob agwedd ar fywyd yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys yr economi. Mae newid hinsawdd yn parhau i effeithio ar bob cymuned yng Nghymru mewn gwahanol ffyrdd, ac mae digwyddiadau eraill ledled y byd ac yma yng Nghymru yn effeithio ar ein bywydau bob dydd a'n pocedi.

Yn hydref 2021, datblygodd y Bwrdd ei gynigion ar gyfer newidiadau i Benderfyniad 2022-23. Cyhoeddwyd y cynigion hynny ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ionawr eleni. Ers datblygu'r cynigion hynny, mae'r amgylchiadau ariannol yng Nghymru wedi newid yn sylweddol, yn rhannol oherwydd y digwyddiadau a nodwyd uchod. Mae chwyddiant yn mynd i fyny. Mae prisiau ynni'n codi'n sylweddol. Mae prisiau tanwydd wedi cyrraedd lefelau na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Mae'r newidiadau hyn i gostau byw bob dydd yng Nghymru yn effeithio'n uniongyrchol ar gostau busnes yr Aelodau wrth gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd. Un o'r heriau y mae'r Bwrdd yn ei hwynebu yw pennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau heb wybod beth yn union fydd dyfodol economi Cymru.

Croesawodd y Bwrdd y lefel uchel o ymgysylltu yn ei ymgynghoriad a'r dystiolaeth a roddwyd gan y Grwpiau a'r unigolion. Rydym wedi gwrandao ar y dystiolaeth ddiweddaraf ar yr amgylchiadau a'r rhagolygon ariannol ac wedi trafod y sefyllfa, ac o ganlyniad rydym wedi adolygu ein safbwynt ac wedi cytuno ar newidiadau i'r Penderfyniad. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r newidiadau hyn a'r rhesymau dros benderfyniadau'r Bwrdd.

Byddwn hefyd yn cynnwys adolygiadau sylweddol pellach yn ein rhaglen waith a fydd yn ein galluogi i ystyried y materion a godwyd yn fanylach. Mae crynodeb o'n rhaglen waith strategol wedi'i gynnwys ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Efallai y bydd angen rhagor o newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 os bydd yr

amgylchiadau ariannol yn newid eto mewn ffyrdd annisgwyl dros y misoedd nesaf a byddwn yn parhau i wrando ar yr Aelodau a'u staff ac yn ymgysylltu â hwy yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Dr Elizabeth Haywood

Cadeirydd, Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

1. Y broses adolygu

Y cefndir

1. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd adolygu'r Penderfyniad. Mae'n cynnal adolygiad blynyddol yn bennaf i adolygu lefelau'r lwfansau. Cyn lansio ymgynghoriad y Bwrdd ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23, ymgysylltodd y Bwrdd ag Aelodau a'u staff cymorth drwy gyfarfodydd gyda'u cynrychiolwyr i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion yr ymgynghoriad.
2. Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cyd-fynd ag egwyddorion arweiniol y Bwrdd (h.y. eu bod yn briodol i amgylchiadau ariannol Cymru, yn cefnogi diben strategol y Senedd, yn hwyluso gwaith yr Aelodau'n ddigonol ac yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr), bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried tystiolaeth, gan gynnwys:
 - defnydd yr Aelodau o'u lwfansau ers dechrau'r Chweched Senedd;
 - cymariaethau â'r cymorth sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU; a
 - data ynghylch y sefyllfa economaidd yng Nghymru, er enghraifft tueddiadau cyflog a chostau rhentu llety preswyl yn ardal Bae Caerdydd.
3. Cyhoeddwyd y **cynigion** ar gyfer newidiadau i Benderfyniad 2022-23 er mwyn ymgynghori arnynt. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 7 Ionawr 2022 a 17 Chwefror 2022. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid y Bwrdd, gan gynnwys Aelodau, eu staff cymorth, y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd, Comisiwn y Senedd, yn ogystal â nifer o gyrff cymdeithas sifil. Ymgynghorwyd hefyd â'r cyfryngau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynigion ymhlith y cyhoedd.
4. Un ddadl a gyflwynwyd gan Aelodau cyn yr ymgynghoriad yw bod cost rhentu swyddfeydd wedi cynyddu dros amser i'r graddau nad yw'r lwfans perthnasol, sef y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, yn ddigonol mwyach. Yn sgil hynny, ac er mwyn helpu i lywio ei benderfyniadau terfynol ar newidiadau o ran y lwfans hwn, comisiynodd y Bwrdd gwmni annibynnol o syrfewyr siartredig i wneud ymchwil ar newidiadau i gostau rhentu swyddfeydd yng Nghymru ers dechrau'r Bumod Senedd (2016). Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad B.

5. Cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd yn ystod y cyfnod ymgynghori â grwpiau a oedd yn cynrychioli'r Aelodau a'u staff cymorth, ynghyd â phleidiau gwleidyddol, i drafod cynigion y Bwrdd.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

6. Cafodd y Bwrdd 13 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, gan y bobl a'r grwpiau a ganlyn:

- pedwar Aelod o'r Senedd;
- chwe unigolyn arall;
- ymateb ar y cyd gan y Grŵp Llafur yn y Senedd, staff cymorth y Grŵp Llafur a staff cymorth a gynrychiolir gan undeb y GMB (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel ymateb y 'Grŵp Llafur', er hwylustod);
- Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel ymateb 'Grŵp y Ceidwadwyr', er hwylustod);
- Grŵp Plaid Cymru (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel ymateb 'Grŵp Plaid Cymru', er hwylustod).

7. Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, trafododd y Bwrdd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a phenderfynodd ar newidiadau i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23.

8. Cafodd unrhyw ddata personol a roddwyd gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu trin yn unol â pholisi preifatrwydd y Bwrdd (a gyhoeddwyd yn y [ddogfen ymgynghori](#)) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data a gwybodaeth.

2. Crynodeb o'r penderfyniadau allweddol

Isod ceir rhestr o'r newidiadau allweddol i Benderfyniad y Bwrdd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar gyfer 2022/23 y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd yn dilyn yr ymgynghoriad. Mae'r newidiadau hyn yn cydnabod y digwyddiadau eithriadol a'r newidiadau o ran costau ynni a chostau eraill a welwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cyflogau staff cymorth

10. Y cynnydd i gyflogau staff cymorth a gynigiwyd gan y Bwrdd oedd 0.4 y cant. Gan gydnabod yr amgylchiadau eithriadol y mae staff cymorth yn eu hwynebu, y rôl werthfawr y maent yn ei chwarae a'r cyd-destun economaidd, cytunwyd ar gynnydd o 3 y cant. Cost gyffredinol y penderfyniad hwn yw tua £245,000 y flwyddyn.

Gwariant ar Lety Preswyl

11. Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r lwfans blynyddol ar gyfer rhentu fflatiau ar gyfer Aelodau yn yr ardal allanol a'r ardal ryngol, yn ogystal â'r lwfans i'r Aelodau hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu, 3.1 y cant (ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2021). Yn sgil yr ymatebion a gafwyd a chan gydnabod y cynnydd mewn chwyddiant ers mis Medi 2021, cytunodd y Bwrdd i gynyddu'r lwfansau hyn 5.5 y cant (ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Chwefror 2022). Bydd y penderfyniad hwn yn golygu bod angen ychwanegu tua £7,000 at y gyllideb ar gyfer y lwfansau hyn ar gyfer yr holl Aelodau gyda'i gilydd.

Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr

12. Cynigiodd y Bwrdd gynyddu cwantwm y Gronfa hon 3.1 y cant (ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Medi 2021). Derbyniwyd y cynnig hwn yn dilyn hynny. Yn ystod y flwyddyn, bydd y Bwrdd yn gofyn am dystiolaeth gan Aelodau, drwy'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau, o'r cynnydd mewn costau ynni yn swyddfeydd yr Aelodau er mwyn gwneud addasiadau mwy cywir a phriodol i'r lwfans i adlewyrchu'r costau hynny, gan nad yw'r rhagolygon yn glir ar hyn o bryd. Cytunwyd hefyd y bydd y lwfans blynyddol o £2,500 sydd ar gael i Aelodau gynnal gwaith polisi, ymchwil a chyfathrebu yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Bydd y penderfyniad hwn yn golygu bod angen ychwanegu tua £5,000 at y gyllideb ar gyfer lwfansau'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer yr holl Aelodau gyda'i gilydd.

Amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus

13. Cytunodd y Bwrdd ar ei gynigion i ganiatáu i Aelodau hawlio ad-daliad o'r costau sy'n codi pan ganiateir i staff cymorth gymryd amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus.

Adolygiadau thematig

14. Mewn ymateb i sylwadau a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad, penderfynodd y Bwrdd gynnal adolygiadau thematig o feysydd penodol a gwmpesir gan y Penderfyniad. Yn ystod y Chweched Senedd, bydd y Bwrdd yn cynnal adolygiadau o'r meysydd a ganlyn:

- Cymorth staffio ar gyfer Aelodau, gan gynnwys y lwfans cyffredinol sydd ar gael i Aelodau at y diben hwn a strwythurau cyflog staff cymorth.
- Y ffyrdd y bydd Aelodau'n gweithio yn y dyfodol a goblygiadau hynny i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a darpariaethau ar gyfer gweithio gartref.

3. Tâl Aelodau

15. Mae tâl yr Aelodau wedi cael ei rewi i bob pwrpas ers mis Ebrill 2020. Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Bwrdd y byddai tâl yr Aelodau yn ddarostyngedig i fecanwaith mynegeo blynyddol ar gyfer y Chweched Senedd (sef yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Enillion Canolrifol gros blynyddol ar gyfer swyddi gweithwyr amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol ('ASHE')), ond na fyddai unrhyw gynnydd yn gallu bod yn fwy na thri y cant (nac arwain at ostyngiad mewn cyflog). Bydd y mecanwaith hwn yn gymwys ar gyfer 2022-23, a bydd yn golygu cynnydd o 0.4 y cant yng nghyflog yr Aelodau (h.y. y ffigur ASHE ar gyfer 2021).

16. Mae'r Bwrdd o'r farn bod y mecanwaith sy'n berthnasol i gyflogau Aelodau a deiliaid swyddi yn parhau'n ddilys. Ni wnaeth y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad sylwadau ar gyflogau'r Aelodau. Felly, bydd cyflogau'r Aelodau ar gyfer 2022-23 yn cynyddu 0.4 y cant yn unol â'r cynnydd o ran ASHE. Mae cyflogau'r Aelodau ar gyfer 2022/23, gan gynnwys cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol, wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

4. Gwariant ar Lety Preswyl

17. Mae Pennod 4 o'r Penderfyniad yn nodi'r cymorth sydd ar gael i Aelodau i dalu am gostau ychwanegol y mae'n rhaid iddynt eu hysgwyddo wrth aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartrefi mewn perthynas â chyflawni rôl Aelod.

18. Rhoddir prif gartref Aelod mewn un o dri chategori (ar sail ei leoliad) sef yr ardal fewnol, yr ardal ryngol a'r ardal allanol (fel y'u hamlinellir yn Adrannau 4.2-4.4 o'r Penderfyniad). Mae lefel benodol o gymorth i dalu am lety dros nos yng Nghaerdydd yn cyfateb i bob ardal.

19. Caiff Aelodau hawlio arian am y gost o aros dros nos y tu allan i Gaerdydd, os bydd angen iddynt wneud hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau etholedig.

20. Mae Aelodau "ardal allanol" a all ddangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda hwy yn ardal Caerdydd yn gymwys i gael lwfans gofalwr i dalu am y gost ychwanegol o gael llety addas. Caiff Aelodau "ardal allanol" sy'n gymwys o dan baragraff 4.4.9 o'r Penderfyniad hefyd hawlio ad-daliad o gostau atgyweiriadau hanfodol i eiddo a brynwyd at ddiben ymgymryd â'u gwaith fel Aelodau ym Mae Caerdydd. Dim ond tan ddiwedd y Chweched Senedd y gellir hawlio'r arian hwn, a bydd y ddarpariaeth yn dod i ben ar ôl hynny.

Cynigion y bu'r Bwrdd yn ymgynghori arnynt

Cynnig 1: Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau "ardal allanol" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2021. Byddai hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £810 y mis (neu £9,720 y flwyddyn) yn 2021-22 i £835 y mis (neu £10,020 y flwyddyn) yn 2022-23.

Cynnig 2: Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r "Lwfans Gofalwr" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2021. Byddai hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £120 y mis (neu £1,440 y flwyddyn) yn 2021-22 i £125 y mis (neu £1,500 y flwyddyn) yn 2022-23.

Cynnig 3: Cynigiodd y Bwrdd gadw'r lwfans "Atgyweiriadau hanfodol" ar lefel 2021-22, sef £882 y flwyddyn.

Cynnig 4: Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau "ardal ryngol" 3.1 y cant, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2021. Byddai hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £6,840 y flwyddyn yn 2021-22 i £7,050 y flwyddyn yn 2022-23.

Cynnig 5: Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r terfyn uchaf fesul noson y gellir ei hawlio am lety mewn gwesty 3.1 y cant, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2021. Byddai hyn yn golygu cynyddu'r terfyn uchaf fesul noson o £95 (neu £150 yn Llundain) yn 2021-22 i £98 (neu £155 yn Llundain) yn 2022-23.

Barn am gynigion y Bwrdd

21. Dywedodd Grŵp y Ceidwadwyr y dylai'r Lwfans Gwariant ar Lety Preswyl adlewyrchu chwyddiant y farchnad rentu yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ac y dylid ei addasu hefyd i gyfrif am y cynnydd sylweddol diweddar mewn prisiau ynni. Ychwanegodd y Grŵp fod llawer o'r Aelodau newydd sydd â hawl i'r Lwfans yn ei chael yn anodd dod o hyd i lety yn ardal Bae Caerdydd o fewn y cyllid sydd ar gael.

22. At hynny, roedd Grŵp y Ceidwadwyr:

- yn cefnogi cynnig 2 o ran y Lwfans Gofalwr;
- yn nodi pryder ynghylch pa mor ddigonol yw'r Lwfans Atgyweiriadau Hanfodol;
- yn croesawu cynnig 5 ar aros mewn gwestai ond yn annog y Senedd i ymrwymo i gynllun 'cyfradd y Llywodraeth' ar gyfer Aelodau sy'n trefnu i aros mewn gwestai yn Llundain er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i drethdalwyr.

23. Awgrymodd y Grŵp Llafur fod cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, sef 3.1 y cant o fis Medi 2021, ar ei hôl hi a bod angen cynyddu bob un o'r Lwfansau y cyfeirir atynt yng nghynigion 1-5, i adlewyrchu'r pwysau eithriadol a gafwyd yn ddiweddar yn sgil chwyddiant.

24. Roedd Grŵp Plaid Cymru o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn fach, yn synhwyrol a bod eu hangen ar y cyfan. O ran cynnig 5 (aros mewn gwestai) roedd Grŵp Plaid Cymru yn dadlau efallai na fyddai'r mecanwaith a ddefnyddir i gymhwyso cynnydd i'r Lwfans (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) yn briodol ac y dylid ei adolygu. Roedd o'r farn hefyd y dylai'r Bwrdd gynnal gwaith ymchwil i ddeall yn well y gyfradd arferol ar gyfer aros mewn gwestai a sut y mae ffactorau amrywiol, fel gwneud trefniadau ar y funud olaf – sef rhywbeth na all yr Aelodau ei osgoi ar adegau – yn effeithio ar gyfraddau o'r fath.

Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a dderbyniwyd gan y Bwrdd

25. Ar ôl cynnal gwaith ymchwil i'r farchnad, gwelodd y Bwrdd mai dim ond nifer gyfyngedig o fflatiau un a dwy ystafell wely oedd ar gael yn ardal Bae Caerdydd. Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr holl Aelodau sy'n gallu rhentu fflat yng Nghaerdydd, ac sydd am wneud hynny, wedi llwyddo i sicrhau llety.

26. Yn sgil yr ymchwil i'r farchnad a gynhaliwyd gan y Bwrdd, canfuwyd bod y gost o rentu eiddo un a dwy ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd, sydd ar osod am lai na £1,000 y mis calendr, wedi cynyddu'n gyson dros y 12 mis hyd at fis Hydref 2020. Er bod cost gyfartalog yr eiddo rhent un ystafell wely sydd ar gael yn ardal Bae Caerdydd wedi bod yn gymharol sefydlog rhwng mis Hydref 2021 a mis Chwefror 2022, mae nifer yr eiddo sydd ar gael yn gyfyngedig iawn. Yn ôl data diweddar a gasglwyd gan y Bwrdd, mae fflatiau un ystafell wely yn costio tua £810 y mis calendr yn gyffredinol, sydd o fewn y lwfans newydd arfaethedig o £835.

27. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod nifer yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu sydd o fewn y lwfans yn gostwng a bod pwysau chwyddiant yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd pan gyhoeddwyd cynigion y Bwrdd. Gan gydnabod yr amgylchiadau ariannol eithriadol presennol a'r cyfyngiadau o ran argaeledd eiddo, penderfynodd y Bwrdd y dylid cynyddu'r lwfans Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer Aelodau'r ardal "allanol" a'r ardal "ryngol" yn unol â'r gyfradd ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer y Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Y gyfradd, felly, fyddai 5.5 y cant (Chwefror 2022), yn hytrach na'r ffigur ar gyfer mis Medi, sef 3.1 y cant, sy'n golygu hyd at uchafswm o £10,260 (yn seiliedig ar lwfans misol o £855)¹ ar gyfer Aelodau'r ardal "allanol" a £7,220 y flwyddyn ar gyfer Aelodau'r ardal "ryngol", ar gyfer 2022-23 (cynigion 1 a 4).

28. Defnyddir yr un ffigur, sef cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Chwefror 2022 o 5.5 y cant, i gynyddu'r lwfans sydd ar gael i Aelodau dalu am y gost o aros mewn gwestai dros nos (cynnig 5). Bydd hyn yn darparu lwfans dyddiol â therfyn uchaf o £100 (neu £158 yn Llundain). Er sicrwydd i'r Aelodau, os yw'n anodd dod o hyd i ystafell o fewn y terfyn uchaf hwn, gall y tîm Cymorth Busnes i Aelodau arfer rhywfaint o ddisgresiwn wrth ymdrin â hawliadau rhesymol.

29. Yn unol â'r penderfyniad uchod, penderfynodd y Bwrdd hefyd gymhwyso cyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr o 5.5 y cant ym mis Chwefror 2022 i'r gost o rentu llety sy'n addas i ddarparu gofal ar gyfer dibynyddion, gan olygu £1,520 y flwyddyn i'r Lwfans Gofalwr (cynnig 2).

30. Gan fod y lwfans atgyweiriadau hanfodol, sydd ar gael i nifer gyfyngedig iawn o Aelodau yn unig, yn cael ei ddiddymu'n raddol, gan ddiflannu'n llwyr ôl i'r Chweched Senedd ddod i ben, nid oes unrhyw reswm, ym marn y Bwrdd, dros gynyddu'r lwfans hwnnw. Penderfynodd y Bwrdd gadw'r lwfans ar lefel 2021-22 o £882 y flwyddyn.

¹ Cyfrifwyd y lwfans blynyddol diwygiedig o £10,260 drwy gymhwyso'r cynnydd o 5.5 y cant i'r lwfans misol (£810), talgrynnu i'r £5 agosaf (£855) a lluosu'r ffigur hwn â 12 mis.

5. Y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu

31. Mae Pennod 6 o'r Penderfyniad (Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ('y Gronfa Costau')) yn nodi bod gan Aelodau hawl i wneud cais am ad-daliad ar gyfer unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr.

32. Y Gronfa Costau ar gyfer 2021-22 oedd £20,060, neu £6,712 (pan fo'r Aelod yn gweithio o Dŷ Hywel yn unig). Ers 2021-22, mae'r Gronfa Costau hefyd wedi cynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud â deunydd ysgrifennu, gan gynnwys postio ac argraffu – cynyddwyd y Gronfa £1,800 fesul Aelod i adlewyrchu trosglwyddo'r gyllideb deunydd ysgrifennu o gyllideb ganolog y Comisiwn i gyllideb y Penderfyniad. Diben y newid hwn oedd rhoi mwy o dryloywder ynghylch gwariant Aelodau ar ddeunydd ysgrifennu.

33. Mae Pennod 7 o'r Penderfyniad (Cymorth Staffio ar gyfer Aelodau) yn darparu y caiff Aelod hawlio hyd at derfyn uchaf o £2,500 (gan gynnwys TAW) tuag at y gost o dalu am gyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, am gyfnod penodedig, er mwyn cyflawni darn o waith ymchwil penodol neu ymgysylltu ag etholwyr. Enw'r gronfa hon yw'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

Cynigion y bu'r Bwrdd yn ymgynghori arnynt

Cynnig 6: Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr 3.1 y cant, yn unol â chyfradd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2021. Byddai hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £20,060 y flwyddyn (neu £6,712 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel) i £20,680 y flwyddyn (neu £6,920 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel). Cytunodd y Bwrdd i edrych eto ar y gyfradd hon cyn i'r Penderfyniad ar gyfer 2022-23 gael ei gwblhau a'i gyhoeddi, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r gwaith ymchwil allanol a gomisiynwyd ganddo, sy'n ymwneud ag amodau'r farchnad ar gyfer swyddfeydd yng Nghymru, ac ystyried a oes angen gwneud addasiadau pellach mewn ymateb i gostau cyfleustodau ac ynni.

Cynnig 8: Gwahoddodd y Bwrdd safbwyntiau ar y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, gan gynnwys a fyddai'n well cael gwared ar y Gronfa honno a'i disodli drwy drosglwyddo £2,500 ychwanegol i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau ar sut y gellir ei defnyddio. Croesawodd y Bwrdd hefyd safbwyntiau ar

fanteision y darpariaethau trosglwyddo, cyfuno ac ategu presennol sydd ar waith ar gyfer y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu, a pha elfennau (os o gwbl) o'r nodweddion hynny o'r Gronfa y byddent yn dymuno eu cadw pe bai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

Barn am gynigion y Bwrdd

34. Un mater a godwyd gan rai o'r ymatebwyr oedd bod nifer o Aelodau newydd o'r Chweched Senedd wedi ei chael yn anodd dod o hyd i swyddfeydd a oedd yn diwallu eu hanghenion ac yn bodloni'r egwyddorion o ran rhentu swyddfeydd fel y'u nodir yn y Penderfyniad.

35. Galwodd pum ymatebydd am fwy o gynnydd i'r lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr na'r hyn a gynigiwyd gan y Bwrdd. Wrth gefnogi'r safbwynt hwnnw, nododd yr ymatebwyr y rhesymau a ganlyn:

- y cynnydd sylweddol diweddar o ran chwyddiant a'r angen i addasu'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn unol â'r cynnydd cysylltiedig mewn costau, er enghraifft costau rhent, postio, hysbysebu, argraffu, deunydd ysgrifennu a chostau eraill o ddydd i ddydd;
- y cynnydd sylweddol diweddar mewn costau ynni a'r ffaith y disgwylir i'r mesurau diogelu rhag cynnydd mewn prisiau sy'n gysylltiedig â'r cap ar ynni domestig ddod i ben dros amser;
- y ffaith bod lwfans costau swyddfa uwch ar gael i Aelodau Seneddol o'i gymharu ag Aelodau o'r Senedd;
- cynnydd mewn costau rhentu swyddfeydd;
- nid yw'r cyllid sydd ar gael yn ddigonol i ymgysylltu ag etholwyr oherwydd costau cynyddol rhentu a rhedeg swyddfa.

36. Dywedodd y Grŵp Llafur fod costau rhentu swyddfeydd etholaethol wedi cynyddu mewn sawl ardal yng Nghymru, ac o ganlyniad mae costau rhentu a chostau cysylltiedig bellach yn cyfrif am hyd at 50–75 y cant o'r holl Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i Aelodau mewn ardaloedd o Gymru â chostau rhentu uchel. At hynny, nododd y Grŵp:

- nad yw'n gynaliadwy trosglwyddo arian o gyllidebau staffio Aelodau i helpu i ariannu costau uchel o ran rhentu swyddfeydd;

- dylai'r Bwrdd adolygu'r gofyniad i Aelodau geisio prisiadau a chyngor cyfreithiol wrth adnewyddu prydles bresennol neu geisio symud eu swyddfa oherwydd y pwysau sy'n gysylltiedig â hynny o ran arian ac amser.

37. Galwodd y Grŵp Llafur hefyd ar y Bwrdd i gynnal adolygiad o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i roi'r sicrwydd ariannol hirdymor sydd ei angen i fuddsoddi mewn swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol hygyrch a diogel. Mae'r Grŵp Llafur o'r farn y dylai adolygiad o'r fath hefyd gynnwys ystyried: naill ai gwahanu'r lwfans ar gyfer rhentu swyddfeydd o'r lwfans ar gyfer rhedeg swyddfeydd; neu, ddarparu swm uwch drwy'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i Aelodau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd rhentu drud.

38. O ran Grŵp y Ceidwadwyr:

- nododd ei farn efallai nad yw'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn briodol i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer addasiadau i'r lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn y dyfodol; a
- galwodd ar y Bwrdd i adolygu'r Lwfans Adnewyddu Swyddfa, sydd ar gael ar hyn o bryd i Aelodau ym mlwyddyn gyntaf eu trydydd tymor yn y swydd yn unig, a phob trydydd tymor ar ôl hynny, fel bod modd talu costau cynnal a chadw swyddfeydd fel newid arwyddion, ailaddurno ac ati o'r lwfans hwn yn hytrach na'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

39. Croesawodd Grŵp Plaid Cymru benderfyniad y Bwrdd i gomisiynu gwaith ymchwil annibynnol ar gostau rhentu swyddfeydd yng Nghymru a gofynnodd i ganfyddiadau'r gwaith ymchwil fod ar gael i'r Aelodau (gweler Atodiad B)

40. Roedd sylwadau'r Aelodau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- dylid dyrannu lwfansau ar wahân ar gyfer rhent swyddfa a chostau rhedeg swyddfa, a dylai'r lwfans rhent swyddfa ar gyfer pob Aelod gael ei bennu'n unol â'r costau rhentu cyfartalog ar gyfer yr ardal lle y mae angen cael swyddfa;
- dylid dyrannu lwfans uwch i Aelodau Rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr o gymharu ag Aelodau Etholaethol, i adlewyrchu'r ffaith bod Aelodau Rhanbarthol yn gwasanaethu nifer fwy o etholwyr;
- er mwyn lleihau ei gostau rhentu, roedd un Aelod wedi symud swyddfa ond nid yw'r swyddfa newydd yn ddigon mawr iddo weithio yno gyda'i holl aelodau o staff ar yr un pryd;

- nid yw'r £1,800 a drosglwyddwyd i lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr pob Aelod ar gyfer y Chweched Senedd i dalu am gostau postio yn ddigonol ar gyfer y gwaith ymgysylltu y mae angen ei wneud gydag etholwyr.

41. Yn gyffredinol, croesawyd cynnig 8 (dileu'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu a'i ddisodli drwy drosglwyddo £2,500 ychwanegol i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr) gan y rhai a ymatebodd iddo, ar y sail y byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau ar sut i ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

42. Nododd yr ymatebwyr pe bai gwerth y Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, yna dylid uwchraddio'r swm o £2,500 yn unol â ffigurau diweddaraf y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, fel y dadleuwyd yn achos y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn fwy cyffredinol.

43. Ar hyn o bryd, gall Aelodau gyfuno'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu er mwyn comisiynu darnau mwy sylweddol o waith ymchwil. Tynnodd dau ymatebydd sylw at y ffaith na ddylid colli'r gallu hwnnw os trosglwyddir yr arian i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

44. Tynnodd Aelod arall sylw at y ffaith nad oes llawer o gyllid ar gael i dalu am gostau cyfathrebu ag etholwyr a dywedodd fod risg y byddai trosglwyddo'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yn golygu y byddai'r £2,500 yn cael ei wario ar gostau swyddfa yn hytrach nag ymgysylltu ag etholwyr.

Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a dderbyniwyd gan y Bwrdd

45. Rhoddodd y gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Bwrdd ddarlun amrywiol o newidiadau i gostau rhentu swyddfeydd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Atodiad C). Ni chanfu'r gwaith ymchwil unrhyw batrwm amlwg o ran costau rhentu eiddo masnachol yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, gyda chynnydd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru a gostyngiadau mewn ardaloedd eraill. Roedd yr ymchwil yn ddefnyddiol ym marn y Bwrdd a bydd yn helpu'r Bwrdd i lywio ei waith yn y dyfodol ar ei adolygiad o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Cytunodd y Bwrdd y dylid cyhoeddi'r adroddiad er mwyn bod yn agored.

46. Mae rhai Aelodau yn rhentu swyddfeydd tra bod rhai eraill yn dewis rhentu unedau manwerthu sy'n cael eu hailbwrpasu fel swyddfeydd. Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod costau rhentu'r ddau fath o eiddo wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd ac wedi gostwng mewn ardaloedd eraill.

47. Nododd y Bwrdd fod yr ardrethi busnes sy'n daladwy ar swyddfeydd wedi cynyddu'n gyson ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y gwaith ymchwil, bydd swm y cynnydd mewn termau arian parod yn dibynnu ar werth ardrethol yr eiddo. Er y bydd y cynnydd yn y cyfraddau sy'n daladwy ar rai mathau o eiddo wedi bod yn sylweddol mewn termau arian parod, bydd y cynnydd canrannol yn fach mewn termau arian parod ar gyfer eiddo o werth ardrethol isel. Nododd y Bwrdd hefyd y bydd o leiaf rai o'r eiddo a brydlesir gan Aelodau yn gymwys ar gyfer y cynllun rhyddhad ardrethi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

48. Gan nad yw'r gwaith ymchwil yn dangos tuedd gyson ar i fyny o ran costau rhentu swyddfeydd ledled Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ni all y Bwrdd gyfiawnhau cynnydd cyffredinol, y tu hwnt i'r hyn a gynigiwyd (3.1 y cant), i lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yr holl Aelodau ar y sail bod eu costau rhentu swyddfeydd yn uwch.

49. Mae'r Bwrdd yn deall bod y rhan fwyaf o Aelodau'r Chweched Senedd y mae angen swyddfa etholaethol neu ranbarthol arnynt eisoes wedi llwyddo i gael swyddfa. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad eu bod yn cael trafferth dod o hyd i swyddfeydd, ond roedd y rhesymau am hyn yn amrywiol. Bydd y Bwrdd yn ceisio deall yn well y trafferthion a wynebir gan Aelodau wrth gaffael swyddfeydd a nifer yr Aelodau yr effeithir arnynt, fel rhan o'i ymgysylltiad ag Aelodau yn y dyfodol.

50. Mae'r Bwrdd yn cydnabod, ers cyflwyno ei gynnis i gynyddu'r lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr 3.1 y cant, fod rhai costau swyddfa wedi cynyddu'n sylweddol, megis costau ynni a chostau amrywiol yr effeithir arnynt gan chwyddiant.

51. Ar yr un pryd, awgrymodd adolygiad o sut y mae'r Aelodau wedi gwario eu lwfans Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr hyd yma yn ystod blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd nad oes unrhyw Aelodau'n debygol o orwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae'r Bwrdd yn derbyn efallai bod Aelodau'n tueddu i wario llai ar rentu swyddfa a chostau yn ystod blwyddyn gyntaf Senedd newydd nag y byddent yn ystod blynyddoedd dilynol. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn nad yw tanwariant Aelodau ar y lwfans hwn o reidrwydd yn golygu bod y lwfans yn ddigonol gan y gallai Aelodau fod yn gwario llai er mwyn aros o fewn y gyllideb.

52. Roedd y Bwrdd yn deall y pryderon a godwyd ynghylch cost cyfleustodau, a phenderfynodd adolygu costau ynni a chwyddiant yn fanwl. Yn ystod y flwyddyn, bydd y Bwrdd yn gofyn am dystiolaeth gan Aelodau, drwy'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau, o'r cynnydd mewn costau ynni yn swyddfeydd yr Aelodau er mwyn gwneud addasiadau mwy cywir a phriodol i'r lwfans i adlewyrchu'r costau hynny, gan nad yw'r rhagolygon yn glir ar hyn o bryd.

53. Mae'r Bwrdd yn cydnabod, fel y nododd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, fod Aelodau Seneddol yn cael lwfans uwch ar gyfer costau swyddfa nag Aelodau o'r Senedd. Caiff Aelodau Seneddol nad ydynt yn cynrychioli etholaethau yn Llundain hawlio hyd at £27,470² y flwyddyn i dalu am gostau rhentu a rhedeg swyddfa. Yn unol â chynnig y Bwrdd ar gyfer 2022/23, byddai Aelodau o'r Senedd yn cael hawlio hyd at £20,680 y flwyddyn (neu £6,920 os yw swyddfa'r Aelod wedi'i lleoli yn Nhŷ Hywel) at yr un diben. Caiff Aelodau Etholaethol o Senedd yr Alban hawlio hyd at £16,775 y flwyddyn am rentu swyddfa a hyd at £13,392 yn ychwanegol³ y flwyddyn am gostau rhedeg swyddfa fel postio, argraffu a hysbysebu.

54. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd o'r farn na fydd cymhariaeth â'r lwfansau costau swyddfa mewn seneddau eraill o reidrwydd yn cyfateb yn uniongyrchol i lwfansau'r Senedd. Nid yw'n glir a yw'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau Seneddol yn cael eu darparu at yr un dibenion yn union â Chronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr yr Aelodau. Fel rhan o'i raglen waith yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal adolygiad thematig o'r ffyrdd y mae Aelodau'n gweithio a goblygiadau hynny i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a darpariaethau ar gyfer gweithio gartref. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys cymhariaeth â'r lwfansau costau swyddfa sydd ar gael i aelodau o seneddau eraill.

55. Ar ôl ystyried y sylwadau a gafwyd mewn ymateb i gynnis 8, ac er mwyn symleiddio'r drefn, penderfynodd y Bwrdd ddileu'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu a'i ymgorffori yn y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu, gan gynyddu'r Gronfa honno £2,500. Bydd yr un lefel o gynnydd yn gymwys i'r swm hwnnw â'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer 2022/23 (h.y. 3.1 y cant).

56. Mae hyn yn golygu y bydd Aelod sy'n cynnal swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod yn 2022/23 yn gallu hawlio cyfanswm o hyd at £23,260 o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Bydd Aelod sy'n cyflawni dyletswyddau etholiadol neu ranbarthol o'r cyfleusterau swyddfa yn Nhŷ Hywel, Bae Caerdydd, yn unig yn gallu hawlio cyfanswm o hyd at £9,500.

57. Mewn perthynas â chynnig 8, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i Aelodau o ran defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, penderfynodd y Bwrdd hefyd:

² Lwfans yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ar gyfer 2021/22

³ Lwfans Senedd yr Alban ar gyfer 2021/22 ar gyfer Aelodau Etholaethol. Mae gan Aelodau Rhanbarthol Senedd yr Alban hawl i swm gwahanol o lwfans.

- barhau i ganiatáu'r arfer o gyfuno adnoddau rhwng Aelodau at ddibenion polisi, ymchwil a chyfathrebu;
- y bydd y cyfyngiadau ar drosglwyddo arian i mewn i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, ac allan ohono, yn gymwys i'r lwfans Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr cyfan gan gynnwys y £2,500 (a addaswyd yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr) a drosglwyddwyd o'r lwfans Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu;
- dileu'r cyfyngiadau yn y Penderfyniad ar ddefnyddio'r lwfans Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu o fewn pedwar mis i etholiad cyffredinol arferol yn y Senedd, ar y sail bod y Penderfyniad yn cynnwys mesurau diogelu digonol, ac y byddai'n fwy priodol nodi unrhyw gyfyngiadau ychwanegol yn ystod cyfnod etholiad yn Rheolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd;
- cadw'r rheol mai dim ond ar gyfer ymchwil i ddatblygu polisi, ymchwilio i faterion sydd o bwys i etholwyr a chraffu ar bolisi a deddfwriaeth neu gyllid y gellir defnyddio cyllid y Penderfyniad;
- dileu'r gofyniad i'r Bwrdd gyhoeddi manylion am sut y mae'r Aelodau yn defnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu yn adroddiadau blynyddol y Bwrdd, gan gyhoeddi'r wybodaeth honno ochr yn ochr â threuliau eraill yr Aelodau ar wefan y Senedd;
- dileu'r gofyniad am gymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer gwaith ymchwil gan y tîm Cymorth Busnes Aelodau Comisiwn y Senedd. Fodd bynnag, fel y nodir yn y Penderfyniad, dylid darparu o leiaf dri dyfynbris ar gyfer unrhyw waith yr amcangyfrifir y bydd yn werth £750 neu fwy;
- bydd yr un newidiadau i reolau yn cael eu cymhwyso i waith ymchwil sy'n cael ei gynnal gan grwpiau'r pleidiau o unrhyw falans sy'n weddill yn eu cyllidebau. Gall Aelodau barhau i drosglwyddo neu gyfuno adnoddau o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr gyda grwpiau'r pleidiau at ddibenion comisiynu gwaith ymchwil.

58. Yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ar ôl iddo ddod i ben, cyflwynodd rhai Aelodau sylwadau i'r Bwrdd y dylid talu eu costau band eang cartref o gyllid y Penderfyniad, ar y sail bod angen cysylltiad band eang i alluogi Aelodau i weithio gartref. Gan fod ble a sut y mae'r Aelodau'n gwneud eu gwaith wedi newid yn sylweddol yn sgil pandemig Covid, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal adolygiad thematig o'r ffyrdd y mae Aelodau'n gweithio a goblygiadau hynny i'r lwfansau y darperir ar eu cyfer yn y Penderfyniad.

59. Yn y cyfamser, penderfynodd y Bwrdd, mewn ymateb i sylwadau'r Aelodau, y bydd Aelodau'n cael hawlio costau band eang yn y cartref yr eir iddynt yn benodol er mwyn gweithio gartref, sy'n ychwanegol at gostau arferol byw gartref. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, costau ail linell band eang yn y cartref i'w defnyddio at ddibenion gwaith y Senedd yn unig, neu gostau uwchraddio gwasanaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau gwell cysylltiad at ddibenion gwaith y Senedd. Bydd unrhyw hawliadau o'r fath yn cael eu talu o gronfeydd canolog ac nid o'r lwfansau cyfredol. Yn unol â rheolau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, dylai Aelodau nodi y byddant yn cael eu trethu ar unrhyw hawliadau o'r fath a ad-delir iddynt o dan y ddarpariaeth hon.

60. Fel y nodwyd uchod, mae'r Bwrdd yn bwriadu cynnal adolygiad thematig o'r ffyrdd y mae'r Aelodau'n gweithio a goblygiadau hynny i'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr a'r darpariaethau ar gyfer gweithio gartref. Bydd rhagor o waith ymgysylltu ag Aelodau a staff cymorth yn cael ei wneud fel rhan o'r broses hon.

6. Cymorth Staffio

61. Mae Pennod 7 o'r Penderfyniad yn galluogi Aelodau i hawlio costau cyflogi staff i gefnogi eu gwaith. Mae Pennod 7 hefyd yn darparu ar gyfer fframwaith cyflogaeth drwy ddarparu ar gyfer contractau safonol a nodi graddfeydd cyflog ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Aelodau, pan fo'r costau'n cael eu talu drwy'r Penderfyniad.

62. Caiff cyflogau staff cymorth Aelodau unigol eu haddasu bob blwyddyn yn unol â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ac Enillion Canolrif gros cyflogeion amser llawn yng Nghymru rhwng mis Ebrill y flwyddyn honno a mis Ebrill y flwyddyn flaenorol ("ASHE").

63. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, cododd cyflogau staff cymorth 4.4 y cant, yn unol ag ASHE. Er mwyn diogelu rhag y posibilrwydd o godiadau neu ostyngiadau mawr iawn i gyflogau staff cymorth o ganlyniad i amrywiadau mawr yn ASHE, cyflwynodd y Bwrdd derfyn uchaf (3 y cant) a therfyn isaf (0 y cant) ar lefel yr addasiad blynyddol yn unol â mynegai ASHE ar gyfer y Chweched Senedd.

Cynigion y bu'r Bwrdd yn ymgynghori arnynt

Cynnig 7: Cynigiodd y Bwrdd gynyddu'r lwfans gwariant staffio 0.4 y cant yn 2022-23 i adlewyrchu'r cynnydd blynyddol i gyflogau staff cymorth yn unol ag ASHE. Byddai hyn yn golygu cynyddu'r lwfans o £107,350 y flwyddyn yn 2021-22 i £107,779 y flwyddyn yn 2022-23.

Cynnig 9: Cynigiodd y Bwrdd y darpariaethau a ganlyn i ganiatáu i Aelodau hawlio o'u lwfans gwariant staffio er mwyn caniatáu i'w staff cymorth gael amser i ffwrdd o'r gwaith yn ystod eu horiau gwaith cytunedig fel a ganlyn:

- i. Amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl am ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus di-dâl, megis bod yn llywodraethwr ysgol.
- ii. Amser i ffwrdd o'r gwaith yn ddi-dâl ar gyfer ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus â thâl, megis dyletswyddau cynghorwyr awdurdodau lleol, ac eithrio gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog (gweler pwynt iii).
- iii. Amser i ffwrdd o'r gwaith â thâl ar gyfer ymgymryd â gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog.
- iv. Bydd amser i ffwrdd â thâl i staff cymorth sy'n ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus yn cael ei gyfyngu fel a ganlyn:
 - a. drwy gydol cyfnod o wasanaeth rheithgor;

- b. hyd at derfyn uchaf o 15 diwrnod (fesul pob cyfnod treigl o 12 mis) mewn perthynas â hyfforddiant milwyr wrth gefn y lluoedd arfog; ac
 - c. terfyn uchaf o 10 diwrnod (fesul pob cyfnod treigl o 12 mis) mewn unrhyw achos arall.
- v. Gellir talu costau cyflenwi ar gyfer y staff cymorth yn ystod y cyfnodau hyn o absenoldeb â thâl o'r Lwfans Staffio Dros Dro sy'n cael ei dalu o gronfeydd canolog y Penderfyniad.
- vi. Ni chaniateir i gyflogeion sy'n cael amser i ffwrdd â thâl gael taliad dwbl.

Barn am gynigion y Bwrdd

Cyflogau staff cymorth

64. Roedd y chwe ymateb a gafwyd gan unigolion nad ydynt yn Aelodau yn canolbwyntio ar gynig 7 yn unig. Roedd pob un yn dadlau o blaid cynnydd uwch i gyflogau staff cymorth na'r hyn a gynigiwyd gan y Bwrdd (0.4 y cant).

65. Dadleuodd y Grŵp Llafur a Grŵp y Ceidwadwyr hefyd dros gynnydd uwch i gefnogi cyflogau staff ar gyfer 2022/23 na'r hyn a gynigiwyd gan y Bwrdd.

66. Roedd y safbwyntiau a nodwyd o blaid y cynnydd uwch yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- y cynnydd sylweddol diweddar yng nghostau byw a'r toriad cyflog termau real a ddaw yn sgil cynnydd o 0.4 y cant mewn cyflogau;
- y lefel uchel o ymroddiad i'w gwaith a welwyd ymhlith staff cymorth yn ystod y pandemig;
- annigonolrwydd y lwfans gweithio gartref sydd ar gael i staff cymorth i dalu am gostau ychwanegol gweithio gartref;
- yr angen i godiadau cyflog staff cymorth ar gyfer 2022/23 gyfateb neu ragori ar y rhai a ddyfarnwyd i staff eraill sy'n ymgymryd â rolau tebyg i staff cymorth. Gwnaed cymariaethau â staff Comisiwn y Senedd a staff Senedd yr Alban yn benodol (y dyfarnwyd cynnydd o 2.7 y cant a 4.5 y cant iddynt yn y drefn honno ar gyfer 2022-23);
- yr anawsterau a wynebwr wrth ddenu pobl fedrus iawn i weithio fel uwch-staff cymorth oherwydd y graddfeydd cyflog sydd ar gael a'r llwyth gwaith.

67. Codwyd pwyntiau eraill mewn perthynas â chynnig 7, gan gynnwys:

- yr effaith anghymesur ar staff cymorth sydd ar gyflogau is yn sgil y cyfuniad o gynnydd sylweddol mewn costau byw a'r cynnydd arfaethedig o 0.4 y cant i'w cyflogau;
- dylai'r Bwrdd ddefnyddio swm cyfartalog ASHE dros dair blynedd fel sail i'w benderfyniadau ynghylch cynyddu cyflogau staff cymorth yn y dyfodol, sef y dull a ddefnyddir gan Gomisiwn y Senedd, yn hytrach na ffigur ASHE o un flwyddyn, er mwyn lliniaru'r risg o amrywiadau sylweddol o un flwyddyn i'r nesaf;
- yr angen i'r Bwrdd ystyried yr opsiwn o greu band cyflog arall yng ngraddfeydd cyflog staff y pleidiau gwleidyddol er mwyn galluogi grwpiau gwleidyddol i ddenu staff sydd â chymwysterau addas;
- dylai'r Bwrdd adolygu strwythurau cyflog staff cymorth er mwyn sicrhau bod y tâl ar gyfer rolau gwahanol yn briodol i natur y dyletswyddau dan sylw;
- y ffaith nad oes mecanwaith ar gael i staff cymorth gyflwyno sylwadau ar 'gynnig cyflog' blynyddol gan y Bwrdd.

Lwfans Gwariant Staffio yr Aelodau

68. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid rhoi lwfansau staffio uwch i Aelodau fel bod modd iddynt gyflogi mwy o staff.

69. Roedd y rhesymau a nodwyd i gefnogi'r ddadl hon yn cynnwys:

- nid yw'r lwfans presennol ar gyfer cyflogi staff yn adlewyrchu'r pwysau presennol o ran llwyth gwaith na'r disgwyliadau ar Aelodau o ran eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr a'u cyfrifoldebau Seneddol;
- cynnydd sylweddol yng ngwaith achos yr Aelodau. Nododd y Grŵp Llafur fod tystiolaeth a ddarparwyd gan ei Aelodau a'i staff yn dangos cynnydd o 187 y cant yn y gwaith achos newydd a gafwyd rhwng blynyddoedd calendr 2019 a 2021 yn eu cyfanrwydd. Nododd hefyd gynnydd sylweddol yn yr amser a dreulir wrth ymdrin â galwadau ffôn;
- cymariaethau â lwfans staff cymorth Senedd y DU a Senedd yr Alban, a'u bod wedi galluogi eu Haelodau i dalu am gymorth staffio ychwanegol yn ystod y pandemig;
- y twf o ran presenoldeb yr Aelodau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r angen am staff cymorth â sgiliau arbenigol i ymgymryd â gwaith o'r fath;

- mae'r cyllidebau staffio presennol ynghyd â'r llwyth gwaith a phwysau eraill yn ei gwneud yn anos i Aelodau gadw staff hirsefydlog.

70. Er mwyn tynnu sylw at effaith y diffyg cefnogaeth sydd ar gael i Aelodau, ym marn y Grŵp Llafur, ar lesiant eu staff cymorth presennol, nododd ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd i roi ciplun o brofiadau ei staff:

- Mae 87 y cant o'r staff a holwyd wedi profi straen neu faterion eraill yn ymwneud â'u llesiant o ganlyniad i'w llwyth gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae 78 y cant o'r staff a holwyd yn teimlo nad oes gan eu swyddfa ddigon o staff i ddiwallu anghenion eu Haelod a'u hetholwyr.
- Mae 49 y cant o'r staff a holwyd wedi gweld eu llwyth gwaith yn cynyddu hyd at 50 y cant dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac mae 49 y cant wedi gweld cynnydd o fwy na 100 y cant.
- Mae 64 y cant yn credu bod swyddogaethau neu gyfrifoldebau sy'n rhan o'u rôl na lwyddwyd eu cyflawni oherwydd pwysau'r llwyth gwaith. Mae 29 y cant, fodd bynnag, yn teimlo nad yw hynny'n wir.
- Mae 58 y cant o'r staff a holwyd yn credu bod eu horiau gwaith wedi cynyddu llawer dros y ddwy flynedd ddiwethaf, tra bod 29 y cant yn credu eu bod wedi cynyddu rhywfaint.
- Dywedodd 76 y cant o'r staff a holwyd eu bod yn ei chael yn anodd cymryd eu gwyliau blyneddol yn llawn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

71. Galwodd y Grŵp Llafur ar y Bwrdd i wneud fel a ganlyn:

- cynnal adolygiad cyflym ar frys o'r mesurau cymorth sydd ar waith i Aelodau er mwyn mynd i'r afael â'r materion difrifol o ran llesiant a llwyth gwaith y tynnwyd sylw atynt yn yr arolwg o staff cymorth Llafur;
- ymrwymo i gynyddu'r gyllideb staffio i alluogi Aelodau i gyflogi 4 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn fel mater o frys yn y Senedd hon;
- cynnal adolygiad llawn o'r pwysau staffio cyn y Seithfed Senedd gan gynnwys ymgynghori ag Aelodau a staff cymorth;

- cydnabod y gyfran uchel o Aelodau'r Grŵp Llafur sydd â chyfrifoldebau ychwanegol yn y Senedd (e.e. Gweinidogion, cadeiryddion pwyllgorau) a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar staff cymorth.

72. Rhoddodd y wybodaeth a gyflwynwyd gan y Grŵp Llafur am ganfyddiadau ei arolwg gipolwg defnyddiol ar y pwysau amrywiol y mae Aelodau a staff yn eu hysgwyddo a'r rhesymau dros y pwysau hynny.

73. Wrth ymateb i ymrwymiad y Bwrdd i adolygu'r dull cyffredinol o ymdrin â'r lwfans staffio cyn y Seithfed Senedd, dywedodd un Aelod nad yw'n realistig nac yn gynaliadwy aros pedair blynedd arall am y posibilrwydd o gynnig realistig o ran y gyllideb ar gyfer cyflogau.

Amser i ffwrdd o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus

74. Croesawodd y Grŵp Llafur yr eglurhad a roddwyd yn y cynnig hwn o ran hawliau staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus. Roedd y grŵp Llafur o'r farn na all milwyr wrth gefn wrthod y gyfradd ddyddiol y cânt eu talu tra byddant ar ddyletswydd. Nododd y Grŵp Llafur pe bai cynnig 9(vi) yn cael ei weithredu (osgoi rhoi taliad dwbl i staff sy'n cael amser i ffwrdd i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus), gallai hyn olygu i bob pwrpas na fyddai staff cymorth yn gallu elwa o gynnig 9(iii) (amser i ffwrdd â thâl ar gyfer ymgymryd â gwasanaeth rheithgor a hyfforddiant gorfodol milwyr wrth gefn y lluoedd arfog), ac y byddai'n well iddynt gymryd gwyliau di-dâl neu ddefnyddio gwyliau blynyddol at y diben hwnnw.

75. Galwodd y Grŵp Llafur ar y Bwrdd i adlewyrchu'r trefniadau arfer gorau yn y sector cyhoeddus ehangach drwy ddarparu diwrnodau ychwanegol o wyliau blynyddol neu absenoldeb â thâl arbennig i filwyr wrth gefn y lluoedd arfog gwblhau eu hyfforddiant sylfaenol gofynnol.

76. Croesawodd Grŵp y Ceidwadwyr y cynnig i alluogi Aelodau i hawlio cyllid o'r lwfans staffio er mwyn i'w staff cymorth ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus di-dâl.

Newidiadau allweddol i'r Penderfyniad a dderbyniwyd gan y Bwrdd

77. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y cynnydd sylweddol mewn costau byw a nodwyd gan ymatebwyr a'r data a ddarparwyd i'r Bwrdd ar amodau'r farchnad (gweler Atodiad D). Mae'r Bwrdd yn nodi hefyd fod costau byw yn debygol o godi eto, yn y tymor byr o leiaf, er enghraifft o ganlyniad i'r newid i'r cap ar brisiau ynni a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill 2022. Yn amlwg, bydd cynnydd o'r fath yn effeithio ar staff cymorth.

